**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

**Drafft y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)**

15 Gorffennaf 2016

Annwyl Gydweithwyr

Ar 5 Gorffennaf 2016, cyhoeddodd Mark Drakeford AC, yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, ddrafft o'r Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) ynghyd â Memorandwm Esboniadol. http://llyw.cymru/funding/fiscal-reform/welsh-taxes/land-transaction-tax/?lang=cy

Mae'r drafft o'r Bil yn gyfle i randdeiliaid perthnasol ymgyfarwyddo â Bil technegol a chymhleth yn ystod yr haf, cyn iddo gael ei gyflwyno'n ffurfiol yn ystod yr hydref.

Os caiff y Bil ei gyflwyno fel y cynlluniwyd, ac os caiff ei atgyfeirio gan y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor Cyllid ("y Pwyllgor") i'w drafod yng Nghyfnod 1, byddwn yn galw am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Rwy'n achub ar y cyfle hwn i roi gwybod ichi ymlaen llaw am yr hyn rydym yn bwriadu'i wneud oherwydd **mae'n debygol y bydd y cyfnod ar gyfer ymgynghori wedi'i gyfyngu i bedair wythnos**.

Efallai y byddwn hefyd yn cynnal digwyddiad i randdeiliaid er mwyn helpu i lywio ein gwaith ar y Bil. Os byddai gennych ddiddordeb mewn bod yn bresennol, rhowch wybod i Glerc y Pwyllgor:

Bethan Davies – 0300 200 6372 / SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru

Gellir cael rhagor o wybodaeth am hynt Bil drwy'r Cynulliad drwy glicio ar y linc isod: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance.htm

Hyderaf fod yr wybodaeth hon ymlaen llaw o gymorth.  Os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill, mae croeso i chi gysylltu â mi neu'r Clerc.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolion neu sefydliadau a fyddai'n awyddus i gyfrannu at yr ymchwiliad. Caiff copi o'r llythyr hwn ei roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

Yn gywir

**Simon Thomas AC / AM**

**Cadeirydd / Chair**